**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Medi 2013**

## DATGANIAD O GYFRIFON 2012-13

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw gofyn am roi awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2012-13 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Gwybodaeth

2 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010, mae'n ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30 Medi.

3 Eleni cynhelir y cyfarfod olaf gyda'r archwilwyr ar 12 Medi, ac yn y cyfarfod hwn cytunir ar unrhyw newidiadau i'r cyfrifon yn dilyn canfyddiadau'r archwiliad. Oherwydd amseriad y cyfarfod, ni fydd modd cwblhau'r cyfrifon yn derfynol a'u dosbarthu i'r aelodau cyn cyfarfod yr Awdurdod ar 16 Medi 2013, felly gofynnir i'r Awdurdod Tân ac Achub roi awdurdod dirprwyedig am gymeradwyo'r cyfrifon i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Medi 2013.

## Newidiadau Archwiliedig

4 Mae canfyddiadau rhagarweiniol yr Archwilydd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yn ymwneud â materion technegol bychan fel trin cyfrifon, diffiniadau a'r modd y cyflwynir eitemau penodol yn y cyfrifon. Ni ddylai'r rhain effeithio'r sefyllfa ariannol o ran y tanwariant, y darpariaethau a'r cronfeydd wrth gefn sy'n parhau'r un fath ag yr adroddwyd i'r Aelodau ar 17 Mehefin 2013.

## Cyflwyno'r Cyfrifon

5 Caiff y cyfrifon eu cyflwyno'n fanwl i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Medi 2013. Mae croeso i Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Archwilio ddod i'r cyfarfod os ydynt yn dymuno cael esboniad manylach ynglŷn â'r cyfrifon.

## Argymhelliad

6 Bod yr Aelodau'n rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Archwilio, am eleni, i gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2012-13.